**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

15 Mai 2020

Annwyl Randdeiliaid

**YMATEB I'R CORONAFEIRWS COVID-19**
**DIWYGIO'R GOFYNION YMGYNGHORI CYN YMGEISIO YNG NGHYSWLLT CEISIADAU AR GYFER DATBLYGIADAU MAWR A DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL**

Mae'r llythyr hwn yn esbonio'r newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("DMPWO") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("DNSPWO") mewn ymateb i'r heriau sy'n deillio o COVID-19.

Mae argyfwng COVID-19 wedi golygu bod y system gynllunio yn wynebu nifer o heriau. Ysgrifennais at awdurdodau cynllunio lleol ar 27 Mawrth i ddarparu cyngor cychwynnol ynghylch sut oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt gynnal gwasanaethau yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r cyngor hwn wedi cael ei ddiweddaru mewn llythyr a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill. Mae'r ddau lythyr i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-wediu-diweddaru-i-awdurdodau-cynllunio?_ga=2.33551742.1954020603.1589550240-821439234.1563282565.

**Ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr**

Fel yr amlinellwyd yn y llythyrau hyn, gwelwyd bod problemau o ran gweithredu'r weithdrefn ymgynghori cyn ymgeisio statudol, yn enwedig yr effaith mae cau pob adeilad cyhoeddus nad yw'n hanfodol wedi'i chael ar y gallu i gydymffurfio â'r gofynion cyhoeddusrwydd.

Mewn ymateb i hyn, mae Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Datgymhwyso ac Addasiadau Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 ("y Gorchymyn Diwygio") wedi cael ei lunio er mwyn galluogi'r broses ymgynghori cyn ymgeisio i gael ei chynnal, ac i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr gael eu cyflwyno yn sgil hynny. Bydd y Gorchymyn diwygio yn dod i rym am hanner nos ar 19 Mai 2020.

Mae’r gofyniad sy’n nodi ei bod yn ofynnol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i’w harchwilio mewn lleoliad sy’n agos i'r datblygiad arfaethedig wedi cael ei ddiddymu am gyfnod dros dro. Yn hytrach, mae’n rhaid i ddatblygwyr gyflwyno'r holl wybodaeth ar-lein a sicrhau bod y cyfeiriad gwe yn glir ar hysbysiad y safle (ac ar bob llythyr hysbysu sy’n cael ei anfon at gymdogion yn uniongyrchol, os yw’n wahanol i hysbysiad y safle). Mae’r Gorchymyn Diwygio hefyd yn gofyn i ddatblygwyr ddarparu rhif ffôn cyswllt. Bydd hyn yn golygu bod pobl heb fynediad i’r rhyngrwyd yn gallu trafod y datblygiad arfaethedig yn uniongyrchol a gwneud cais am gopi caled o'r dogfennau. Os gwneir cais am gopïau caled, rhaid peidio â chyflwyno cais cyn pen 14 diwrnod i’r dyddiad yr anfonir y ddogfen ddiwethaf.

Mae’r gofyniad i ddarparu gwybodaeth ar ffurf copi caled wedi cael ei gyflwyno fel mesur lliniaru er mwyn sicrhau nad yw pobl heb fynediad i'r rhyngrwyd yn cael eu rhoi dan anfantais drwy ddileu'r gofyniad sy’n sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio’n lleol. Wrth baratoi deunydd ar gyfer ymgynghoriad, cynghorir datblygwyr i ystyried beth yw’r ffodd orau o ddelio â’r angen am gopïau caled o’r cychwyn cyntaf.

Lle bo ymgynghoriad cymunedol wedi cael ei gynnal cyn i'r adeiladau lleol gau, a bod y cais wedi cydymffurfio â holl ofynion eraill yr ymgynghoriad, gellir cyflwyno'r cais cynllunio i’r awdurdod cynllunio lleol.

Ni ystyrir bod unrhyw ymgynghoriad lleol oedd ar waith pan ofynnwyd i adeiladau gau wedi cydymffurfio’n llwyr â gofyniad erthygl 2C(1). Felly, bydd rhaid dechrau’r ymgynghoriad cymunedol eto. Er ein bod wedi ystyried a fyddai modd lleihau'r gofynion oherwydd bod cyfnod ymgynghori eisoes wedi cael ei gynnal, oherwydd bod angen sicrhau cyfranogiad eang wrth ddylunio cynlluniau, mae gweithdrefn amgen sy’n amlwg i bawb wedi’n darbwyllo ni y dylai'r ymgynghoriad ddechrau o’r dechrau. Bydd rhaid ailgyflwyno pob hysbysiad angenrheidiol a bydd rhaid iddynt gynnwys yr wybodaeth sydd wedi’i diweddaru yn Atodlen 1D er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod lle mae modd cael gafael ar yr wybodaeth berthnasol.

Mae Erthygl 2F o’r DMPWO yn nodi beth mae’n rhaid ei gynnwys mewn adroddiad ymgynghoriad cyn ymgeisio, y dylid ei gyflwyno gyda chais cynllunio. Mae hyn yn cynnwys datganiad o’r hysbysiad a roddir am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd. Mae’r Gorchymyn Diwygio yn gofyn i ddatblygwyr ddatgan bod yr wybodaeth ragnodedig wedi cael ei darparu ar wefan yn unol â’r gofynion, yn ogystal â nodi a gafwyd cais am gopïau caled, ac a ddarparwyd y copïau hyn.

Bydd y trefniadau diwygiedig ar gyfer ymgyngoriadau yn parhau i fod yn berthnasol i ymgyngoriadau cymunedol cyn ymgeisio lle bo o leiaf un o’r gofynion hysbysu yn erthyglau 2C(1) a 2D(2) wedi’i roi cyn diwedd cyfnod yr argyfwng. Bydd cyfnod yr argyfwng yn dod i ben ar 18 Medi.

**Hysbysiadau Safleoedd**

Ar ôl ystyried hysbysiadau safleoedd yn fanwl, daethpwyd i'r canlyniad y bydd arddangos hysbysiadau mewn safleoedd yn dal yn ofynnol. Mae hyn yn gyson â chyhoeddusrwydd ceisiadau cynllunio, lle mae'r gofyniad o ran arddangos hysbysiadau safleoedd yn dal mewn grym. Fel y nodwyd yn fy nghanllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol, mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Coronafeirws") yn rhwystro pobl rhag gadael lle maen nhw'n byw heb esgus rhesymol. Un esgus rhesymol yw bod angen i berson deithio at ddibenion gwaith lle nad yw'n rhesymol ymarferol i'r person hwnnw weithio o'r lle mae'n byw ynddo. Mae arddangos hysbysiad safle yn weithgaredd na ellir ei wneud o gartref, felly mae'n esgus rhesymol at ddibenion y Rheoliadau Coronafeirws. Bwriad y Rheoliadau Coronafeirws yw cadw pellter cymdeithasol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i hysbysiad safle gael ei arddangos gan barchu'r mesurau cadw pellter cymdeithasol.

Rydw i hefyd yn disgwyl i ddatblygwyr ac asiantwyr ddefnyddio mwy o gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ar-lein eraill yn ystod y cyfnod hwn er mwyn ehangu ymgysylltiad y cyhoedd â'r broses ymgynghori.

**Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol**

Oherwydd bod nifer o adeiladau'r llywodraeth naill ai wedi cau neu wedi lleihau eu lefelau staff, mae anawsterau o ran dilysu cydymffurfedd ag erthygl 12(5) y DNSPWO. Felly, mae'r Gorchymyn Diwygio yn dileu erthygl 12(5) dros dro ar gyfer ceisiadau a wneir yn ystod y cyfnod rhwng 19 Mai 2020 a 18 Medi 2020. Os yw'r cais ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi cael ei gyflwyno'n electronig, nid yw bellach yn ofynnol cyflwyno copi caled i Weinidogion Cymru a'r awdurdod cynllunio lleol. Gwneir y newid hwn er mwyn galluogi ymgeiswyr i gydymffurfio'n llawn â'r gofynion cyflwyno.

Bydd angen i'r holl randdeiliaid gydweithredu a dangos ewyllys da er mwyn sicrhau bod modd cynnal gwasanaeth cynllunio gweithredol yn ystod y cyfnod hwn, ac i ddiogelu'r system gynllunio er mwyn iddi allu chwarae rhan allweddol yn y broses o adfer yr economi ar ôl COVID-19.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech chi dynnu sylw Llywodraeth Cymru ar unrhyw beth, anfonwch e-bost ataf yn prifswyddogcynllunio@gov.wales.

Yn gywir,

**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**